| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **26 Chwefror 2009** |
| **TEITL** | **Adolygiad o Ddarpariaeth Toiledau Cyhoeddus** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno gwybodaeth i'r Aelodau ar gyfer trafodaeth ar Rybudd o Gynnig ynghylch y gwasanaeth toiledau cyhoeddus** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Argymhellir aros gyda penderfyniad y Cyngor ar 11 Rhagfyr, 2008.** |
| **AWDUR** | **Gwyn Morris Jones**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd a Bwrdeistrefol** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd Arwel Pierce** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Tua blwyddyn a hanner yn ôl, dechreuwyd ar waith i flaenoriaethu holl wasanaethau'r Cyngor. Bu i'r pwyllgorau craffu edrych ar yr unedau gwaith, a rhoddwyd gweithgareddau mewn un o 3 categori blaenoriaeth yn unol â'r gallu i leihau gwariant arnynt, gyda'r categorïau yn 'Na', 'Efallai' neu 'Posib'.

1.2 Rhoddwyd y gwasanaeth toiledau cyhoeddus yn y category 'Posib', gyda bwriad i ganfod arbedion o thua £140,000 y flwyddyn ar gostau'r gwasanaeth, gyda £100,000 o'r ffigwr hwnnw i'w ystyried fel toriad a'r gweddill i'w ddefnyddio i wella ansawdd y toiledau.

1.3 Cadarnhawyd hynny gan y Cyngor fel rhan o'r trefniadau cyllidol ar gyfer 2008/09.

## 2. ADOLYGIAD O'R GWASANAETH

2.1 Ym Mehefin 2008, sefydlodd Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd weithgor i ystyried newidiadau yn nhrefniadau'r gwasanaeth toiledau cyhoeddus, er canfod yr arbedion angenrheidiol yng nghostau'r gwasanaeth.

2.2 Cyflwynwyd argymhellion y Gweithgor i sylw Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd ar 16 Medi, 2008 ac i'r Bwrdd ar 14 Hydref, 2008. Mae'r adroddiadau a gyflwynwyd ynghlwm.

2.3 Rhoddwyd ystyriaeth i'r adolygiad yn y cyfarfod o'r Cyngor ar 11 Rhagfyr, 2008, pryd y penderfynwyd fel a ganlyn:-

**PENDERFYNWYD**

(A) Cadarnhau penderfyniad Bwrdd y Cyngor sef:

(i) Cefnogi'r newidiadau i'r gwasanaeth toiledau cyhoeddus yn unol ag Atodiad 1 i'r adroddiad, er canfod yr arbedion angenrheidiol ar gyllideb y gwasanaeth ;

(ii) Gofyn i'r Gweithgor symud ymlaen i wneud asesiad cynhwysfawr o holl doiledau cyhoeddus y sir, gan wyntyllu pob posibilrwydd i weithio mewn partneriaeth ar draws y sir, yn ogystal ag edrych ar anghenion lleoliadau strategol, gyda golwg i uwchraddio'r darpariaethau hynny;

(iii) Gofyn i'r Gweithgor ymchwilio i gynllun y Cynulliad i annog cynghorau i gydweithio gyda busnesau i hwyluso'r defnydd o doiledau cyhoeddus;

(iv) Cytuno i'r gweithgor edrych ar faterion pellach i geisio arbedion ar gostau'r gwasanaeth i'r dyfodol.

(B) Bod y Cyngor yn gofyn i'r Cynulliad ystyried ymestyn ei gynllun sy'n hwyluso cydweithio gyda busnesau i ganiatáu'r cyhoedd ddefnyddio toiledau sydd yn arferol wedi eu darparu ar gyfer cwsmeriaid yn unig, i gynnwys cynghorau cymuned a thref iddynt hwy hefyd fod yn gymwys i dderbyn arian o'r cynllun i'w cynorthwyo i gymryd cyfrifoldeb am doiledau cyhoeddus ac i'w cadw ar agor.

## 3. GWAITH DIWEDDAR

3.1 Yn dilyn penderfyniad y Cyngor ym mis Rhagfyr, ysgrifennwyd at y cynghorau cymuned a thref hynny lle 'roedd bwriad i newid y gwasanaeth toiledau cyhoeddus.

Roedd y llythyrau yn:-

- Manylu ar y newidiadau i'r gwasanaeth
- Yn gofyn am awgrymiadau am fusnesau lleol allai fod â diddordeb mewn cymryd rhan yng nghynllun y Cynulliad (gweler Pwynt 4 isod) sy'n annog busnesau i adael i'r cyhoedd yn gyffredinol wneud defnydd o'u toiledau
- Nodi y buasai'r Cyngor yma yn fodlon trosglwyddo neu rannu cyfrifoldeb am doiled gyda chyngor cymuned neu dref, ac yn gofyn a oedd hynny yn rhywbeth yr hoffent ei drafod

3.2 Gyrrwyd y llythyrau at 32 cyngor cymuned, ac ar adeg paratoi'r adroddiad yma, fe roedd 16 wedi cysylltu'n ôl. Mae'r ymateb yn amrywio, gyda rhai yn dweud nad ydynt mewn sefyllfa i ystyried cynnal gwasanaeth toiledau yn eu hardal hwy, ac ambell i awgrym o fusnes allai fod mewn sefyllfa i ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio eu toiledau. Fodd bynnag, mae'n ymddangos fod ystyriaeth yn cael ei roddi i'r posibilrwydd o gydweithio i gadw gwasanaeth mewn perthynas â thua 10 safle.

3.3 Nid oes unrhyw gyngor cymuned neu dref wedi rhoddi ymrwymiad terfynol hyd yma i gydweithio i gynnal gwasanaeth toiledau.

## 4. CYNLLUN GRANT CYFLEUSTERAU CYHOEDDUS

4.1 Penderfynodd y Cyngor ar 11 Rhagfyr y dylid gofyn i'r Cynulliad ymestyn ei Gynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus i gynnwys cynghorau cymuned/tref, yn hytrach na busnesau yn unig.

4.2 Nid oedd yr ymateb a gafwyd gan y Cynulliad yn rhoddi ateb pendant i'r pwynt a godwyd, a gofynnwyd am ymateb pellach i gael sicrwydd ar y pwynt. Fodd bynnag, mae'n ymddangos na fydd yn bosib defnyddio'r cynllun i gynorthwyo cynghorau cymuned redeg toiledau cyhoeddus.

4.3 Mae'r cysylltiad gyda'r Cynulliad ynghylch cynghorau cymuned wedi arwain at wybodaeth y gellir ystyried cynnwys neuaddau pentref neu gymuned yn y cynllun, os ydynt wedi eu cynnwys ar y rhestr trethi annomestig. Gall hynny arwain at fwy o opsiynau mewn rhai ardaloedd.

## 5. SEFYLLFA ARIANNOL

5.1 Dylid nodi fod £100,000 y flwyddyn eisoes wedi ei dynnu o'r gyllideb ar gyfer y gwasanaeth toiledau cyhoeddus, gydag arian pontio o £50,000 ar gael ar gyfer 2008/09 yn unig.

5.2 Mae adroddiadau diweddar i bwyllgorau ac ati wedi tynnu sylw at y sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Mae arbedion effeithlonrwydd a thoriadau cyllidol wedi eu cyflwyno ers rhai blynyddoedd bellach a chyrhaeddwyd at bwynt lle mae'n anodd canfod arbedion sydd ddim yn effeithio ar wasanaethau i'r cyhoedd.

## 6. ARGYMHELLIAD

6.1 O ystyried y sefyllfa gyllidol sy'n bodoli, argymhellir fod y Cyngor yn glynu at y penderfyniad a gymerwyd ar 11 Rhagfyr, 2008.